

CYFARFOD	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
DYDDIAD	29 Tachwedd 2016
TEITL	Ysgolion gyda diffyg balansau
PWRPAS	Amlinellu ysgolion gyda diffyg balansau ar gais y Fforwm
ARGYMHELLIAD	Ystyried yr adroddiad
AWDUR	Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
AELOD CABINET DROS ADDYSG	Y Cyngorydd Gareth Thomas

1 Cefndir

1.1 Amgaeaf atodiad sy'n amlygu patrwm diffyg balansau dros y cyfnod tair blynedd diwethaf, yn unol â chais gan y Fforwm Cyllid Ysgolion yn ei gyfarfod 4 Gorffennaf 2016, ymhellach i'r cofnod isod -

“5 (ii) Gofyn i'r Rheolwr Cyllid gyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Fforwm yn amlinellu:

(a) tueddiadau a phatrwm dros y blynyddoedd o ysgolion unigol sydd mewn diffyg ariannol.”

1.2 Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol yw cyllideb yr ysgol gydag un o'r amodau ynghlwm i'r gyllideb yw ni ddylid sefydlu cyllideb ddiffygiol.

2. Prif Bwyntiau'r Atodiad

2.1 Cyfanswm nifer yr ysgolion gyda diffyg wedi cynyddu.

2.2 Cyfanswm gwerth y diffyg ariannol wedi cynyddu.

2.3 20 Ysgol wedi bod gyda diffyg ar ryw bwynt yn ystod y cyfnod.

2.4 4 Ysgol wedi bod gyda diffyg ar ddiwedd pob blwyddyn o'r cyfnod (wedi'i amlygu'n felyn).